CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 25 HYDREF 2017

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 25ain o Hydref 2017 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Phil Grice, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Miriam Moules, Wyn Thomas, Barry Williams, Emlyn Schiavone, Dr Ioan Matthews, Daniel Bartley a Dr Matthew Thomas.

245. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Peter Hughes Griffiths, Ken Lloyd, Jeff Thomas, Dr Baba Gana, Gareth John a'r Parch Tom Defis.

246. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem yr Agenda 10a fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

Dywedodd y Cyng Daniel Bartley bod ganddo fuddiant yn eitem 10 ar yr Agenda mewn perthynas â'i waith fel Rheolwr Gwylfa Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Datganodd y Cyng. Emlyn Schiavone fod yn rhan o'r eitem ar yr Agenda 10a fel cydnabyddiaeth i'r ymgeisydd.

247. Cwestiynau

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

248. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2017 fel rhai cywir.

249. Materion yn Codi

Ni chododd unrhyw faterion

250. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2017 fel rhai cywir.

251. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi -

Tudalen 54: 220 - Cynllunio W/35903 - Tir oddi ar Lluest y Bryn

Tudalen 55: 224 - Prynu Offer ar gyfer Parc Caerfyrddin

Cynigiwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb bod y ddau argymhelliad yn cael eu derbyn.

Tudalen 55: 225 - Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Sir Gaerfyrddin

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice , eiliwyd gan y Cyng Alun Lenny a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai'r ymatebion i'r adolygiad gael eu gwneud gan gynghorwyr ar gyfer eu wardiau unigol.

252. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Alun Lenny, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017 fel rhai cywir.

253. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi

Tudalen 57: 238 - Trefniadau Archwilio ar gyfer 2017/18

Tudalen 58: 240 – Dyddiad Cyfarfod Cyllid 2018/19

Tudalen 58 : 241 - Prynu Offer ar gyfer Parc Caerfyrddin

Tudalen 58: 244 – Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin

Tudalen 59: 244 - Clwb Potters Iau Caerfyrddin

254. Adroddiad y Clerc

Ymgynghoriadau Statudol

(a) Cynllunio
W/35251, W/36295 ac W/36296 - 1 Stryd y Priory, Caerfyrddin. SA31 1LS - Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i unrhyw un o'r ceisiadau hyn ond roedd y Cyngor yn cytuno y dylid ystyried arwyddion dwyieithog lle bo modd.

W/36294 – 18 Maesydderwen, Caerfyrddin. SA31 3LX –
Dim gwrthwynebiad.

W/36308 - Glansiw Isaf, Llanllwch, Caerfyrddin. SA31 3RN - Dim gwrthwynebiad.

W/36310 - 16A Woods Row, Caerfyrddin. SA31 1BX - Dim gwrthwynebiad

W/36311 – Tir ger Tyle Teg, Heol Llysonnen, Llanllwch, Caerfyrddin. SA33 5DR - Dim sylw

W/36312 -1 Parc Starling, Tre Ioan, Caerfyrddin. SA31 3HX - Dim gwrthwynebiad

W/36327 - 123 Heol y Priory, Caerfyrddin. SA31 1NB - Dim sylw

Cynigiwyd yr ymatebion a restrwyd i'r ymgynghoriadau cynllunio statudol gan y Cyng Dr Matthew Thomas, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb.

b) Priffyrdd

Dim i'w adrodd.

(c) Trwyddedu

Dim i'w adrodd.

255. Ymgynghoriad Cyn Cais - Tir yn Neuadd Deg

Dywedodd y Clerc fod set lawn o gynlluniau ar gael yn ei swyddfa pe bai aelodau'n dymuno mynd trwy gopi caled o'r cynlluniau. Byddai linc ar lein yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid gwahodd y datblygwyr i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar y 29ain o Dachwedd.

256. Diweddariad Prosiect y Felodrom

NODWYD adroddiad y Clerc.

Diolchodd y Cadeirydd, y Cyng Alun Lenny i'r staff am eu gwaith caled ar y prosiect, a nododd agoriad llwyddiannus y Felodrom y noson cynt.

257. Cynllun Lles Sir Gaerfyrddin

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid symud y mater i gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor Llawn er mwyn i'r aelodau ystyried eu hymateb ar y mater.

258. Adolygiad o'r Sector Cyngor Cymuned a Thref

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid symud y mater i gyfarfod mis Tachwedd y Cyngor Llawn er mwyn i'r aelodau ystyried eu hymateb ar y mater.

NODWYD adroddiad y Clerc.

259. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru 2018/19

Ar ôl trafodaeth hir fe gynigiwyd gan y Cyng Dr Matthew Thomas, eiliwyd gan y Cyng Phil Grice a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai pob aelod ymateb i'r adroddiad yn unigol.

260. Trefniadau Gweithio Nadolig a Blwyddyn Newydd

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Arwel Lloyd a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn y trefniadau gweithio arfaethedig.

261. Cylchlythyr Cyngor Tref a Chymuned

NODWYD adroddiad y Clerc.

262. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2018-2023

NODWYD adroddiad y Clerc.

263. Cyfarfod Cynghorau Mwy De Cymru

NODWYD adroddiad y Clerc**.**

264. Un Llais Cymru: Cyfarfod Cynghorau Mwy yn Llandrindod 18 Hydref 2017

NODWYD adroddiad y Clerc**.**

265. Adroddiad y Maer

NODWYD adroddiad y Maer.

266. Adroddiad gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

Dosbarthodd y Cyng Barry Williams adroddiad ar Bapur Gwyn y Cyngor Iechyd Cymunedol.

NODWYD adroddiad y Cyng Barry Williams.

267. Adroddiadau gan y Cyng Ken Lloyd: Cyfarfodydd Un Llais Cymru

NODWYD adroddiad y Cyng Ken Lloyd.

268. Cofnodion Cymdeithas yr Afon / Cyfarfod Gŵyl - 3ydd Gorffennaf 2017

NODWYD.

269. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

270. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15 yr hwyr.